GIG CYMRU NHS WALES | Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan University Health Board

Dyfodol Clinigol Clinical Futures




# Astudiaeth Achos

## Derbyniadau Uniongyrchol i Ysbytai Cymunedol

### CEFNDIR

O fis Gorffennaf 2021, bydd cyfle i rai cleifion yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan gael eu derbyn i ysbyty cymunedol yn hytrach nag un o'n hysbytai cyffredinol, uwch, lleol. Mae tystiolaeth gref nad oes angen gofal acíwt, ymyrraeth na chymorth diagnostig ar ganran o gleifion, ond eu bod angen lefel o gymorth na ellir ei darparu gartref. Bydd cleifion yn cael eu rhyddhau i fynd adref gyda chymorth gan dîm cymunedol os bydd angen. Mae'r prosiect wedi llwyddo i gefnogi 13 o gleifion o bob rhan o Went i gael eu derbyn i'w hysbytai lleol yn hytrach na threulio amser yn un o'r safleoedd acíwt.

### NODAU

Bydd y newid hwn yn y gwasanaeth yn galluogi timau meddygol i asesu unigolion yn llawn, cynnal profion helaeth a darparu gofal ychwanegol gan geisio ag osgoi'r straen o fynychu ysbyty cyffredinol, uwch, lleol. Deallwn mai adref yw'r lle gorau i gleifion felly bydd mynychu ysbyty cymunedol yn y tymor byr a chael cymorth ychwanegol gartref yn lleihau gorbryder cleifion a'u teuluoedd.

Bydd y claf yn cael ei atgyfeirio at y Tîm Adnoddau Cymunedol gan Feddyg Teulu neu Barafeddyg a fydd yn trefnu iddo gael ei dderbyn i ysbyty cymunedol dan eu gofal.


### PROSES

Rydym wedi dwyn ynghyd arbenigwyr ar draws ystod o feysydd, gan gynnwys iechyd a'r awdurdod lleol er mwyn dysgu o'r broses a oedd yn ei lle gynt, yr ydym wedi gallu adeiladu arni. Mae prosesau cyffelyb wedi gweithio'n dda yn flaenorol, ond bydd y fenter hon yn cynyddu'r nifer o unigolion sy'n gallu ceisio gofal fel hyn bob wythnos a hefyd cynyddu'r safleoedd sydd ar gael. Rydym hefyd wedi llwyddo i gysylltu ag Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru i gael ambiwlans a fydd yn cael ei neilltuo ar gyfer y rhaglen ac a fydd yn cludo cleifion o'u cartref i'r ysbyty cymunedol.

### CANLYNIADAU / CAMAU NESAF

Yn y bôn, bydd y gwasanaeth hwn ar gyfer claf bregus a/neu hŷn sy'n adnabyddus i'r gwasanaethau ac sydd angen cyfnod o gymorth mwy dwys neu ofal nyrsio ychwanegol.
Gall brofi hefyd fod gan yr unigolyn broblemau o ran ei sefyllfa gymdeithasol ac angen cael ei dderbyn i'r ysbyty i sicrhau ei ddiogelwch yn y tymor byr.

### STORI WIR



Cafodd Miss E ei gweld gan nyrsys tîm Eiddilwch Casnewydd ym mis Gorffennaf ar ôl cael ei chyfeirio drwy lwybr uniongyrchol Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru (WAST) /Falls ar ôl iddi gwympo gartref.
Yn dilyn Asesiad Meddygol Brys, a chwymp arall, penderfynwyd nad oedd Miss E yn ddiogel gartref ar ei phen ei hun. Yn hytrach na'i derbyn i ysbyty acíwt, cafodd ei derbyn i ysbyty cymunedol lleol gan ddefnyddio'r Llwybr Derbyn Uniongyrchol a gwasanaeth cludiant penodedig i gleifion WAST. Cafodd derbyniad y claf i Ysbyty Gwynllyw, a drefnwyd gan nyrsys Meddygol Cyflym Casnewydd a staff ward Ysbyty Gwynllyw, ei reoli a'i amseru'n ofalus.
Yn ystod ei hamser yn yr ysbyty, roedd Timau Adnoddau Cymunedol Casnewydd (CRT), Therapyddion Galwedigaethol a Ffisiotherapyddion yn gallu asesu Miss E a darparu cynllun triniaeth a chymorth cerdded. Roedd staff ward yn medru goruchwylio ei symudedd yn ofalus. Yn ystod ei hamser yn yr ysbyty, darparwyd cymhorthion ac addasiadau gan Therapyddion Galwedigaethol CRT a llwyddodd ei theulu agosaf osod allwedd ddiogel, gwneud cais am larwm crog, symud dodrefn a pharatoi ar gyfer ei dychwelyd adref. Yn ogystal, llwyddodd y Tîm Gofal Ailalluogi i roi pecyn gofal asesu ar waith bedair gwaith y dydd i gefnogi dychweliad diogel adref.
Cafodd Miss E ei rhyddhau gartref yn dilyn rhaglen adsefydlu lwyddiannus yn yr ysbyty ac fe'i hadolygwyd gan y tîm CRT, Therapydd Galwedigaethol a Nyrsio Cyflym y diwrnod canlynol i sicrhau ei bod yn ddiogel ac yn ymdopi'n dda. Mae hi'n parhau i fod yn hapus gartref. "Roeddwn i'n bryderus iawn am gael fy nerbyn i'r ysbyty gan fy mod yn credu y byddaf yn mynd i ysbyty acíwt filltiroedd i ffwrdd, ond roeddwn yn falch iawn pan ges wybod y byddaf mewn ysbyty lleol ger fy nghartref fy hun." Claf, Miss E.
Dywedodd Miss E a'i pherthynas fod CRT yn "dîm gwych, yn broffesiynol iawn, yn sylwgar ac roedd yn wasanaeth arbennig na allai'r un ohonynt ganmol digon arno". Roedd Miss E yn hapus iawn i allu dod adref gyda'r cymorth a ddarparwyd ac roedd hi'n ymdopi'n dda.
Roedd Miss E yn glaf mewnol am 8 diwrnod, ychydig yn hirach na'r disgwyl ond roedd hyn yn caniatáu i'r holl cymhorthyddion gael eu darparu a'r holl addasiadau perthnasol gael eu gwneud cyn y gallai ddychwelyd adref yn ddiogel.